**Ymatebion a wnaed i gwestiynau gan y Cyhoedd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025**

**C: A yw tynnu cwyr clust ar gael ar y GIG ai peidio?**

Diolch am eich cwestiwn cyn cyfarfod Bwrdd Llais ynghylch a oedd tynnu cwyr clust ar gael ar y GIG ai peidio.

Roeddwn i eisiau cadarnhau bod eich cwestiwn wedi cael ei ofyn yng nghyfarfod y Bwrdd yn Wrecsam yr wythnos diwethaf. Eglurwyd hefyd fod Llais wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru i wirio'r sefyllfa ddiweddaraf. Yr ymateb cychwynnol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru oedd bod tynnu cwyr clust ar gael ar y GIG trwy feddygfeydd teulu a bod mynediad at y gwasanaeth yn seiliedig ar angen clinigol unigol. Felly, hoffwn awgrymu eich bod yn cysylltu â'ch meddygfa i wneud ymholiadau pellach.

Fodd bynnag, darparodd cydweithwyr Llywodraeth Cymru ragor o wybodaeth hefyd ynghylch y sefyllfa bolisi yng Nghymru ac anfonasant ragor o wybodaeth gan gynnwys y ddolen isod sy'n ymwneud â'r llwybr cenedlaethol ar gyfer rheoli cwyr clust yn ddiogel ac yn effeithiol mewn lleoliadau sylfaenol a chymunedol. Gobeithio bod hyn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

https://www.llyw.cymru/llwybr-gofal-sylfaenol-chymunedol-ar-gyfer-rheoli-cwyr-clustiau-whc2020014-html

Cadarnhawyd hefyd fod gwaith pellach ar y gweill i ddatblygu'r dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau awdioleg yng Nghymru yn y dyfodol a gweithredu modelau gwasanaeth newydd mewn gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. Mae'r dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau awdioleg yn y dyfodol bron â'i gwblhau a'r gobaith yw y bydd hyn yn helpu i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol ymhellach, gan gynnwys cyflwyno rheoli cwyr clust yn llawn.

Nid yw'r sefyllfa derfynol wedi'i chadarnhau i Llais eto.  Fodd bynnag, mae gan Llais gynrychiolydd ar y grŵp sy'n bwrw ymlaen â hyn.  Byddwn yn cadw llygad ar y sefyllfa ac os bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gael byddwn yn ei hanfon atoch.

Yn y cyfamser, rwy'n gobeithio y bydd cyswllt pellach â gwasanaethau eich meddyg teulu yn eich galluogi i fod yn glir a allwch gael mynediad at y gwasanaethau hyn ar hyn o bryd o dan y trefniadau presennol yn seiliedig ar eich angen clinigol.

**Cefnogaeth i bobl ifanc**

**C: Os yw Llais yn cynrychioli 'llais y bobl,' pam mae'r mater hwn yn parhau i gael ei godi heb ddatrysiad, gan arwain at bryderon parhaus i bobl Cymru?**

Diolch yn fawr iawn am godi hyn. Mae'r achos/profiad rydych chi wedi'i rannu yn dangos yn glir pa mor ddifrifol yw'r heriau o hyd ym maes gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, ac rydych chi'n hollol gywir i ofyn pam nad yw pethau'n newid yn ddigon cyflym. Mae'n rhywbeth rydyn ni'n ei glywed yn aml gan bobl ifanc a theuluoedd ledled Cymru, ac mae'n rhwystredig, yn dorcalonnus, ac yn peri pryder mawr i'r un graddau.

Mae Llais yn sefydliad eithaf newydd o hyd ac rydym yn dal i adeiladu ein systemau, ein perthnasoedd a'n cyrhaeddiad. Ond rydym yn bodoli am yr union reswm hwn: i wneud yn siŵr bod lleisiau pobl, yn enwedig y rhai sy'n cael eu hanwybyddu'n rhy aml, yn cael eu clywed ar bob lefel.

Fel y gwyddoch, nid ydym yn rhedeg gwasanaethau nac yn meddu ar y pŵer i orfodi newid, ond yr hyn *sydd* gennym yw rôl gyfreithiol i wneud cynrychioliadau ffurfiol i gyrff iechyd a gofal pan glywn rywbeth sydd angen mynd i'r afael ag ef. Mae'n ofynnol iddyn nhw yn ôl y gyfraith i ymateb, ac egluro pa gamau maen nhw'n eu cymryd neu pam na allant. Mae hwn yn offeryn allweddol rydyn ni'n ei ddefnyddio i wthio am newid, ac rydyn ni wedi'i ddefnyddio o amgylch gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys ar gyfer pobl ifanc.

Ond fel y gwyddoch o'ch profiad eich hun yn y GIG, mae newid go iawn mewn systemau cymhleth yn cymryd amser ac weithiau mae'n teimlo'n rhy araf, yn enwedig pan fo cymaint o bwysau. Mae pwysau ariannu, prinder gweithlu, a phroblemau systemig i gyd yn chwarae rhan. Wedi dweud hynny, mae'r angen i weithredu yn frys, ac nid ydym yn rhoi'r gorau i awgrymu newidiadau, mawr a bach, a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl.

Rydym ni yma hefyd i helpu unigolion, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i godi pryderon eu hunain drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion am ddim, ac i wneud yn siŵr eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi bob cam o'r ffordd.

Byddwn yn parhau i godi'r materion hyn. Byddwn yn parhau i bwyso am well. A byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw lleisiau plant, pobl ifanc, a'u teuluoedd yn cael eu clywed yn unig, ond eu bod yn cael eu gweithredu.

**C: Sut fydd Llais yn gwella cefnogaeth a chynrychiolaeth i bobl ifanc, o ystyried y diffygion presennol?**

Mae hyn yn rhywbeth rydyn ni wedi bod yn meddwl amdano, ac rydyn ni'n gwybod bod mwy i'w wneud. Er mwyn ein helpu i gryfhau ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc, rydym wedi cyflwyno arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer y maes hwn. Rebecca Lythgoe, Pennaeth Mewnwelediadau ac Ymgysylltu, sy'n dod â llawer iawn o brofiad mewn ymgysylltu ystyrlon â phobl iau ac mae hi eisoes wedi creu offer a chanllawiau hwyluso ar gyfer ein timau i wneud yn siŵr bod ein gwaith yn hygyrch, yn gynhwysol, ac yn briodol i oedran.

Ochr yn ochr â Rebecca, mae gennym hefyd Lisa Charles, ein Cyfarwyddwr Rhanbarthol yng Ngwent, sy'n arwain ein gwaith cenedlaethol o amgylch iechyd meddwl, sy'n ein helpu i ddod â lleisiau pobl ledled Cymru ynghyd a gwthio am newid ar lefel strategol hefyd.

Rydym hefyd yn gweithio'n galed i gryfhau ein partneriaethau, er enghraifft gyda Chomisiynydd Plant Cymru, ac i ymgorffori lleisiau pobl ifanc ym mhopeth a wnawn, nid dim ond mewn prosiectau annibynnol. Mae ein hoffer cynllunio ymgysylltu bellach yn ei gwneud yn ofynnol i bob tîm ystyried sut y gall plant a phobl ifanc fod yn rhan o bob darn o waith.

Rydym eisoes wedi gweld rhywfaint o waith lleol cryf yn dod i'r amlwg. Yn Eisteddfod yr Urdd, treulion ni amser yn gwrando ar blant a phobl ifanc yn uniongyrchol, ac yn ddiweddar, cynhaliodd ein tîm yng Nghastell-nedd, Port Talbot ac Abertawe brosiect ar y cyd â phobl ifanc lleol i archwilio sut olwg ddylai fod ar gefnogaeth iechyd meddwl dda. Gallwch weld ffilm fer am y digwyddiad yma: Gwyliwch y fideo

Mae ein tîm yng Nghwm Taf Morgannwg hefyd wedi bod yn gwrando ar rieni a gofalwyr plant niwroamrywiol a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, gan weithio mewn partneriaeth â'r Hwb Cymorth Ymddygiad. Mae'r canfyddiadau wedi cael eu rhannu gyda'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd, ac rydym yn parhau i gefnogi'r sgyrsiau ynghylch yr hyn sydd angen digwydd nesaf.

Rydyn ni'n gwybod na fydd yn newid dros nos ond rydyn ni wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys, eu cynrychioli a'u blaenoriaethu'n wirioneddol yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud.

Gobeithio bod yr uchod o gymorth i chi.  Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau pellach, neu os hoffech drafod yr ymatebion ymhellach, mae croeso i chi roi gwybod i mi.